Inspection of Youth Offending

Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yn:

## **Pen-y-bont ar Ogwr**

ISBN: 978-1-84099-293-9

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei gynnal fel rhan o'r Rhaglen o Arolygiadau Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Gwnaethom farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 77% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau *Risg* pob unigolyn o achosi *Niwed i Eraill* ei wneud yn ddigon da 63% o'r amser, a chafodd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 70% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer *Gwaith Diogelu* oedd 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* oedd 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* oedd 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50-82%

Ar y cyfan, rydym yn ystyried y darganfyddiadau hyn i fod yn rhai eithaf calonogol. Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi cyflwyno newidiadau i'w brosesau er mwyn gwella asesiadau a chynlluniau a'i waith gydag asiantaethau lleol, a gwelsom waith partneriaeth effeithiol, yn enwedig yr agweddau ar Ddiogelu. Mae angen i'r Gwasanaeth yn awr adeiladu ar y cynnydd hwn er mwyn gwneud gwelliannau pellach i ansawdd ei holl asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau, yn enwedig rhai i leihau'r risg o achosi niwed i eraill.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Gorffennaf 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r holl staff o'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, i aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi rhedeg yn llyfn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Richard Pearce* |
| *Asesydd Ymarfer* | *Kerry Robertson* |
| *Asesydd CCI* | *Steph Webber* |
| *Staff Cymorth* | *Andrew Doyle* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan MacDonald* |

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 4 |
| Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 7 |
| Y camau nesaf | 7 |
| Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth | 8 |
| Rhannu arferion da | 9 |
| 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| 1.1. Risg o Niwed i eraill (RoN) | 10 |
| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu (ToA) | 11 |
| 1.3r Diogelu | 12 |
| 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 14 |
| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill | 14 |
| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu | 15 |
| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc | 15 |
| 3. CANLYNIADAU | 18 |
| 3.1 Sicrhau canlyniadau | 18 |
| 3.2 Cynnal canlyniadau | 18 |
| Atodiad 1: Crynodeb | 20 |
| Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 21 |
| Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad | 22 |
| Atodiad 3b: Data'r arolygiad | 23 |
| Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer | 23 |
| Atodiad 5: Rhestr Termau | 24 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran am bob un o'r 'meini prawf ymarfer' sy'n nodi pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith ym mhob sampl o achosion.

Felly, roeddem yn gallu rhoi sgôr sy'n cynrychioli pa mor aml oedd yr agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* ar yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi prif 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd yma ar y gwaith wella **YCHYDIG**, **RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| **Sgôr *Diogelu:*** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***77%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd:* sgôr *Risg o Niwed:*** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***63%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* – Sgôr *Tebygolrwydd o Aildroseddu:*** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:***<br>***70%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o'r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## **Argymhellion** (rhoddir y person sy’n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod cynllun ymyrryd da, yn defnyddio ASSET, yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r achos, gydag amcanion sy'n cael eu blaenoriaethu yn ôl *Risg o Niwed i eraill* (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(2) yn benodol, bod gwaith sgrinio ac asesu trylwyr yn cael ei wneud ar y dechrau o *Risg* yr unigolyn o achosi *Niwed i eraill* ac o’i statws agored i niwed, a’i gyfathrebu i staff eraill fel y bo’n briodol i’r achos (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(3) o ganlyniad i'r asesiad, bod y Cynllun Rheoli Agored i Niwed a'r Cynllun Rheoli Risg yn benodol ynghylch beth fydd yn cael ei wneud, yn y drefn hon, i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc ac i leihau unrhyw *Risg o Niwed i eraill* sydd wedi cael ei adnabod (Rheolwr y Gwasanaeth)

(4) bod y *Risg o Niwed i eraill*, a’r statws agored i niwed, yn cael eu hadolygu’n gyson a’r asesiadau a’r cynlluniau’n cael eu diweddaru mor aml ag sy’n ofynnol yn ôl y safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc (Rheolwr y Gwasanaeth)

(5) bod tystiolaeth yn y ffeil o sicrhau ansawdd rheolaidd gan reolwyr, yn enwedig o benderfyniadau sgrinio ac asesu, a’r cynlluniau rheoli risg ac agored i niwed (Rheolwr y Gwasanaeth).

Hefyd:

(6) Y dylai’r Gwasanaeth gymryd camau i sicrhau bod gan staff fynediad effeithiol at y system YOIS i bwrpas asesu a chofnodi (Rheolwr y Gwasanaeth).

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio’n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

| |
|---|
| Llenwodd wyth o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad hwn. |

- Roedd pob un o’r plant a’r bobl ifanc yn gwybod pam oeddent wedi dod at y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc ac yn dweud bod staff y Gwasanaeth wedi rhoi gwybod iddynt beth fyddai’n digwydd tra byddent gyda nhw.
- Dim ond un plentyn neu berson ifanc oedd yn cofio ei fod wedi llenwi holiadur *Beth ydych CHI’N ei feddwl?*
- Dywedodd pob un ohonynt fod y Gwasanaeth yn bendant wedi cymryd camau i ddelio gyda’r pethau yr oedd angen cymorth gyda nhw arnynt. O’r chwech o blant a phobl ifanc a atebodd y cwestiwn ynghylch sut oedd y Gwasanaeth wedi eu helpu, dywedodd bob un fod y Gwasanaeth wedi eu helpu i ddeall eu troseddu yn well; dywedodd bump fod y staff wedi eu helpu i ddelio gyda'u problem gyffuriau, a dywedodd bedwar eu bod wedi derbyn cymorth gyda phroblemau alcohol, gwneud penderfyniadau gwell ac ETE.
- Roedd dau o bob tri yn teimlo bod eu bywyd wedi gwella o ganlyniad i’w gwaith gyda’r Gwasanaeth, a theimlai bob un eu bod yn llai tebygol o aildroseddu. Dywedodd un plentyn neu berson ifanc ‘Rwyf yn llai tebygol o droseddu yn awr oherwydd fy mod yn gwybod beth fyddai canlyniadau hynny.’ Dywedodd un arall fod y gweithiwr wedi egluro ‘beth allai ddigwydd os wyf yn parhau i gael fy hun mewn helynt’.
- Roedd y mwyafrif o’r plant a’r bobl ifanc yn hollol fodlon neu'n fodlon ar y cyfan gyda’r gwasanaeth a roddwyd gan y staff.

### Dioddefwyr

| |
|---|
| Cafodd chwech holiadur eu llenwi gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc. |

- Roedd tri o’r dioddefwyr yn hollol fodlon neu’n fodlon ar y cyfan gyda safon y gwasanaeth; roedd tri yn anfodlon ar y cyfan.
- Roedd dau wedi elwa o waith a wnaed gan y plentyn neu’r person ifanc a oedd wedi cyflawni’r trosedd.
- Teimlai ddau fod y Gwasanaeth wedi talu sylw i’w diogelwch; ond teimlai dri dioddefwr nad ydoedd.
- Teimlai bedwar allan o’r chwe dioddefwr fod y Gwasanaeth wedi ystyried eu hanghenion ac y cawsant gyfle i siarad am yr hyn a oedd yn eu poeni.
- Teimlai un dioddefwr (rhiant / gofalwyr y troseddwr) y dylai fod mwy o gyswllt gan y Gwasanaeth i egluro beth oedd yn cael ei wneud gyda’r plentyn neu’r person ifanc.

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**1.3** | Roedd Shaun yn cyflawni elfen dan glo Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi (DTO) am drosedd treisgar. Cafodd ei droseddu ei asesu i fod â chysylltiad agos â straen / iselder o ganlyniad i'w brofiad o gael ei gam-drin. Roedd y rheolwr achos yn cydnabod bod yn gas gan Shaun drafod unrhyw agwedd ar ei gamdriniaeth ac felly, yn ogystal â rhannu’r wybodaeth ysgrifenedig am ei statws agored i niwed gyda’r sefydliad fel sy’n ofynnol, cymerodd hefyd gamau pellach i drafod anghenion Shaun yn sensitif gyda’r staff yno fel bod cymorth effeithiol yn cael ei ddarparu iddo. Daeth Shaun yn llawer mwy parod i siarad am ei broblemau, a oedd yn garreg filltir fawr iddo ef a’i reolwr achos. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**2.2** | Person ifanc gyda chefndir o gamddefnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl oedd Tim. Roedd wedi’i ddedfrydu i Orchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi (DTO). Roedd y rheolwr achos, drwy weithio’n agos gyda’r gweithiwr camddefnyddio sylweddau, yn poeni bod Tim yn cael ei ryddhau ar ddydd Gwener a'i fod yn debygol iawn o gael pwl o oryfed alcohol dros y penwythnos. Trefnwyd apwyntiad goruchwylio pellach iddo ar y dydd Sadwrn yn swyddfa'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc er mwyn ei fonitro'n agos. Roedd hyn yn torri ar ei benwythnos ac yn ei helpu i osgoi torri amodau ei drwydded yn fuan. |
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**3.1** | Roedd Martin ar orchymyn gwneud iawn am drosedd o ymosod ar fachgen iau agored i niwed. I ddechrau roedd yn gyndyn o ysgrifennu llythyr yn ymddiheuro ac o wneud gwaith gwneud iawn. Yn ei dro, roedd y dioddefwr ifanc yn poeni y byddai Martin yn ymosod arno eto. Gweithiodd y swyddog dioddefwr i ennill hyder y dioddefwr a ddywedodd fod angen peintio lloches fysus yr oedd yn ei defnyddio i ddal bws yr ysgol. Ar ôl cael ei ysgogi a’i symbylu gan ei reolwr achos, roedd Martin wedi ymfalchïo mewn peintio’r lloches fysus a hefyd wedi ysgrifennu llythyr yn dweud bod yn edifar ganddo ymosod ar y dioddefwr. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

## 1.1. Risg o Niwed i eraill:

***Maen Prawf Cyffredinol:***

*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN.*

| ***Sgôr:*** | ***Sylw:*** |
|---|---|
| ***68%*** | ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sgrinio am RoND wedi cael ei wneud ym mhob achos; 89% ohonynt ar amser.

(2) Roedd asesiad o RoND llawn wedi cael ei wneud mewn 85% o'r achosion lle oedd angen cyflawni un, a thri chwarter wedi eu cwblhau ar amser. Roeddem yn cytuno gyda'r dosbarthiad o RoND mewn 94% o achosion.

(3) Roedd yr asesiadau o RoND wedi cael eu hanfon ymlaen at y sefydliad dan glo o fewn 24 awr mewn 86% o achosion.

(4) Roedd Cynllun Rheoli Risg wedi cael ei gwblhau mewn 81% o achosion lle'r oedd angen un.

(5) O'r tri achos a oedd yn cwrdd â'r meini prawf MAPPA, roedd dau wedi cael eu hysbysu i'r cydgysylltydd MAPPA, ac wedi cael eu rheoli'n briodol ar Lefel 1.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y sgrinio am RoND yn gywir mewn 42% o achosion.

(2) Roedd yr asesiad o RoND llawn wedi'i gwblhau i safon foddhaol mewn 30% o achosion yn unig, oherwydd na chafodd yr asesiad ei wneud, neu ei wneud yn hwyr, neu oherwydd y diffyg gwybodaeth am ddioddefwyr neu ymddygiad blaenorol.

(3) Roedd y Cynlluniau Rheoli Risg wedi cael eu cwblhau i safon foddhaol yn hanner yr achosion. Yn y gweddill, roedd natur yr ymateb a gynlluniwyd a / neu'r rolau a chyfrifoldebau yn aneglur. Roedd tystiolaeth bod rheolwyr wedi goruchwylio Cynlluniau Rheoli Risg yn effeithiol ond mewn 28% o'r achosion perthnasol.

(4) Roedd manylion y gwaith asesu a rheoli ar gyfer RoND wedi eu cyfathrebu'n briodol i'r holl staff a'r asiantaethau eraill yn hanner yr achosion.

| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir ac amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:***<br>***72%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd yr asesiad cychwynnol o ToA wedi cael ei gwblhau mewn 97% o achosion; roedd 84% ar amser, a 95% o ansawdd boddhaol.

(2) Gwelsom dystiolaeth o gyswllt gweithredol gyda'r plentyn neu'r person ifanc mewn 82%, a gyda rhieni / gofalwyr, mewn 78% o achosion.

(3) Roedd cynllun ymyrryd wedi'i gwblhau mewn 95% o achosion; roedd 78% ar amser; ac roedd 76% yn rhoi sylw i'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig â throseddu'r plentyn neu'r person ifanc. Roedd y cynlluniau'n adlewyrchu pwrpas y ddedfryd (89%) a safonau cenedlaethol (97%); yn gosod amserlen realistig (89%); ac yn canolbwyntio ar newid cyraeddadwy (80%).

(4) Roedd 84% o'r cynlluniau'n ystyried, ac yn cynnwys amcanion a oedd yn rhoi sylw i anghenion Diogelu.

(5) Roedd y cynlluniau ymyrryd yn cynnwys camau i roi sylw i'r materion mwyaf cyffredin a oedd yn gysylltiedig ag aildroseddu: camddefnyddio sylweddau (91%); meddwl ac ymddygiad (89%); agweddau at droseddu (88%), ac ETE (88%). Ym mhob un o'r pump achos lle oedd mater iechyd corfforol, roedd y cynllun ymyrryd yn rhoi sylw i hyn.

(6) Roedd y gwasanaethau iechyd corfforol wedi cael eu cynnwys yn weithredol yn y broses gynllunio ym mhob achos priodol; roedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant wedi cael eu cynnwys mewn 92% o achosion perthnasol; a'r sefydliadau dan glo mewn 90%.

(7) Roedd cynlluniau ymyrryd yn cael eu hadolygu ar yr adegau priodol mewn 71% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y rheolwr achos wedi asesu arddull ddysgu'r person ifanc mewn 32% o achosion, ac roedd holiadur *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* wedi cael ei lenwi gan y plentyn neu'r person ifanc mewn 16% o achosion.

(2) Yn y cynllun ymyrryd nid oedd digon o sylw wedi'i roi i deulu a pherthnasoedd mewn 53% o'r achosion lle oedd angen gwneud hynny; ac i ffordd o fyw mewn 47%. Mewn 53% o'r cynlluniau ymyrryd, nid oedd digon o sylw wedi'i roi i'r cymhelliad i newid. Nid oedd darparwyr addysg a hyfforddiant wedi cael eu cynnwys yn y broses gynllunio mewn 45% o'r sampl.

(3) Roedd y cynllun ymyrryd yn ymgorffori'r rhannau perthnasol o'r Cynllun Rheoli Risg mewn 43% o achosion. Roedd amcanion yn cael eu blaenoriaethu yn ôl y *RoN* mewn 36%; yn cael eu cyfateb i'r angen a oedd yn gysylltiedig â'r troseddu mewn 38%; ac yn sensitif i faterion amrywiaeth mewn 41% o achosion.

| **1.3 Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***78%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sgrinio am statws agored i niwed yn defnyddio ASSET wedi'i wneud mewn 97% o achosion ac roedd 87% ar amser.

(2) Roedd Cynllun Rheoli Agored i Niwed wedi'i gwblhau ym mhob un o'r 27 o achosion lle tybiwyd bod angen un; ac roedd ar amser yn nhri chwarter yr achosion. Roedd cynnwys y Cynllun Agored i Niwed yn cyfrannu at y dewis o ymyriadau i'r plentyn neu'r person ifanc mewn 81% o achosion.

(3) Roedd tystiolaeth i gadarnhau bod y wybodaeth agored i niwed wedi'i hanfon at y sefydliad dan glo mewn 78% o achosion perthnasol. Mewn 86% o achosion dan glo, roedd cyswllt a chyfathrebu gweithredol ynghylch materion Diogelu.

(4) Mewn 88% o'r achosion lle'r oedd yn ofynnol, roedd staff y Gwasanaeth wedi cyfrannu at CAF neu asesiadau neu gynlluniau eraill a ddyfeisiwyd i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd y sgrinio agored i niwed yn foddhaol mewn 32% o achosion ac ni chafodd yr anghenion Diogelu eu hadolygu'n briodol mewn 34%.

(2) Roedd bron i hanner y Cynlluniau Rheoli Agored i Niwed yn anfoddhaol. Y prif reswm am hyn oedd diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau a / neu natur yr ymateb a gynlluniwyd ac, i raddau llai, oherwydd diffyg amseroldeb.

(3) Mewn 62% o achosion, nid oedd digon o dystiolaeth bod rheolwyr wedi goruchwylio'r asesiad agored i niwed.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 73%**

**SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:**

Ar y cyfan, roedd staff Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr yn glir ynghylch y prosesau asesu a chynllunio, ac eithrio MAPPA, lle'r oedd rhai achosion nad oedd yn gymwys wedi cael eu categoreiddio'n anghywir fel rhai MAPPA Lefel 1. Roedd cyfarfodydd panel, i ddelio â rheoli risg ac agored i niwed, wedi cael eu cyflwyno yng nghanol 2009 ac felly ond newydd gychwyn gyda llawer o'r achosion yn ein sampl. Roedd cynnal y paneli i bob golwg wedi llwyddo i gael staff ac asiantaethau eraill i gyfrannu at gyd-gynllunio, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth eu bod wedi cyfrannu'n helaeth at asesiadau a chynlluniau ysgrifenedig gwell. Roedd y Gwasanaeth wedi nodi bod angen gwelliannau pellach mewn asesu a chynllunio tra'n paratoi ar gyfer yr arolygiad ac, o weld ymrwymiad a brwdfrydedd amlwg y staff, roedd mewn sefyllfa dda i wneud hyn.

Gwelsom enghreifftiau lle oedd staff y Gwasanaeth wedi cyfrannu'n effeithiol at asesu a chynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc dan glo. Fodd bynnag, lle oedd staff y Gwasanaeth yn gyfrifol am gynllunio ac adolygu achosion 18 oed, roedd llai o dystiolaeth o gyfrannu a chyfathrebu gan staff y sefydliadau.

Yn ystod yr arolygiad, sylwom y gallai'r system YOIS fod yn araf deg wrth i nifer y defnyddwyr ar y gweinydd gynyddu yn ystod y dydd. Roedd hyn yn fater yr oedd angen i'r Gwasanaeth ei ddatrys os oedd am achub ar bob cyfle i sicrhau bod staff yn cadw cofnodion ac yn defnyddio ASSET yn well. Gwelsom hefyd fod safonau cofnodi yn anghyson e.e. nid oedd rhai cofnodion YOIS yn cynnwys unrhyw wybodaeth gan staff arbenigol a fu'n gweithio gyda'r plentyn neu berson ifanc, heblaw bod apwyntiad wedi'i gynnal; ac ychydig iawn o wybodaeth oedd mewn rhai cofnodion gan reolwyr achos.

## 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill* | |
| ***Sgôr:***<br>***67%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd newidiadau a allai awgrymu *RoN* uwch wedi cael eu rhagweld mewn 88% o achosion, ac wedi cael eu hadnabod yn ddi-oed mewn 78%.

(2) Roedd MAPPA wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y ddau achos lle'r oedd angen ei ddefnyddio.

(3) Roedd ymweliadau cartref i bwrpas wedi cael eu cyflawni'n unol â lefel y materion *RoN*(81%) a Diogelu (84%).

(4) Roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu'n unol â lefel y *RoN* drwy gydol y ddedfryd mewn 89% o achosion.

(5) Roedd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* wedi cael eu darparu fel a gynlluniwyd yn y gymuned mewn 74% o achosion a than glo mewn 80%.

(6) Roedd rheolwyr achos a staff eraill wedi cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth eraill yn nhri chwarter yr achosion yn y gymuned ac ym mhob achos dan glo.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd *RoN* wedi cael ei adolygu'n unol â'r amserlen ofynnol mewn 53% o achosion. Lle oedd cofnodion yn nodi bod newid sylweddol wedi digwydd, dim ond mewn chwarter yr achosion hynny oedd y *RoN* wedi cael ei adolygu, a chymerwyd camau priodol ond mewn 30% o'r achosion lle oedd newid wedi bod mewn ffactorau *RoN.*

(2) Roedd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* yn y gymuned wedi cael eu hadolygu mewn 24% o'r achosion lle oedd newid sylweddol wedi digwydd; ac mewn 25% o achosion dan glo.

| **2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***80%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd yr ymyriadau a ddarparwyd yn y gymuned wedi eu dyfeisio i leihau'r ToA (94%); yn ymgorffori'r holl faterion amrywiaeth (81%); o ansawdd da (81%); ac wedi eu gweithredu'n unol â'r cynllun (69%).

(2) Roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu'n unol â lefel y ToA a aseswyd drwy gydol y ddedfryd mewn 92% o achosion. Roedd pob un o'r troseddwyr PPO wedi derbyn ymyriadau a oedd yn unol â'u statws fel Troseddwyr Mynych ac Eraill â Blaenoriaeth.

(3) Roedd y Gwasanaeth wedi cyfrannu at adolygu'r ymyriadau dan glo ym mhob achos.

(4) Mewn 97% o achosion yn y gymuned, roedd y rheolwr achos wedi ysgogi a chefnogi'r plentyn neu'r person ifanc ac wedi atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Y ffigur cyfatebol ar gyfer plant a phobl ifanc dan glo oedd 90%.

(5) Roedd y rheolwr achos wedi cynnwys y rhiant / gofalwr mewn 82% o achosion yn y gymuned, ac mewn 90% o achosion dan glo.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd yr ymyriadau a ddarparwyd yn y gymuned wedi eu cyfateb yn briodol mewn 39% o achosion ac wedi eu hadolygu'n briodol mewn ychydig dros hanner yr achosion.

| **2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***78%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cymerwyd yr holl gamau angenrheidiol a diymdroi i ddiogelu plant a phobl ifanc dan oruchwyliaeth yn y gymuned mewn 82% o achosion. Cymerwyd camau i ddiogelu plant a phobl ifanc eraill yn y ddau achos dan glo lle tybiwyd bod angen gwneud hynny ac mewn pedwar allan o'r pump achos yn y gymuned lle oedd hynny'n briodol.

(2) Roedd yr holl atgyfeirio angenrheidiol at asiantaethau eraill i hyrwyddo Diogelu wedi'i wneud ym mhob achos dan glo lle oedd angen gwneud hynny, ac mewn 89% o'r achosion yn y gymuned.

(3) Ym mhob achos a oedd yn cael eu goruchwylio yn y gymuned, roedd ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu wedi cael eu nodi ac, mewn 89%, roedd yr ymyriadau yn ymgorffori'r rhai a oedd wedi eu nodi yn y Cynllun Rheoli Agored i Niwed. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer achosion dan glo oedd 88% am y naill a 75% am y llall.

(4) Yn y rhan fwyaf o'r achosion a oedd yn cael eu goruchwylio yn y gymuned, roedd y Gwasanaeth wedi gweithio gydag asiantaethau partner i hyrwyddo Diogelu a lles y plentyn neu'r person ifanc, yn enwedig y gwasanaethau meddygol (100%); y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant 90%); y gwasanaethau iechyd meddwl (89%); a'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (94%).

(5) Yn y rhai dan glo, roedd ymyriadau penodol a gynlluniwyd i hyrwyddo Diogelu wedi cael eu darparu mewn 88% o achosion. Roedd lefel uchel o gydweithio ar faterion Diogelu gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant (100%); y gwasanaethau meddygol (100%); y staff yn y sefydliad dan glo (89%); ETE (80%); a gyda'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (78%). Yn y mwyafrif llethol o achosion, roedd y cydweithio hwn wedi cynnwys gwaith i sicrhau parhad y gwasanaethau prif ffrwd wrth drosglwyddo o'r uned dan glo i'r gymuned.

(6) Yn ein barn ni, roedd yr holl staff perthnasol wedi cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc drwy gydol y ddedfryd mewn 80% o'r achosion dan glo ac mewn 89% o'r achosion cymunedol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Cymerwyd yr holl gamau angenrheidiol a diymdroi i ddiogelu plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu goruchwylio dan glo mewn dim ond dau achos ym mhob tri.

(2) Gwelsom dystiolaeth o gydweithio gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol i hyrwyddo Diogelu a lles plant a phobl ifanc dan glo mewn 57% o'r achosion lle oedd angen gwneud hynny; a gwelsom waith i sicrhau parhad y gwasanaethau ar ôl eu rhyddhau mewn 50% o achosion.

(3) Roedd ymyriadau i hyrwyddo Diogelu wedi cael eu hadolygu fel bo angen mewn 23% o achosion cymunedol ac mewn 33% o'r rhai dan glo.

(4) Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o anghenion Diogelu ac agored i niwed wedi'i wneud yn effeithiol mewn 44% o achosion dan glo ac mewn 33% o rai yn y gymuned.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 75%**

**SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:**

Roedd nifer o achosion yn dangos atgyfeirio effeithiol a phrydlon at asiantaethau eraill, yn enwedig lle oedd pryderon ynghylch diogelwch a lles y plentyn neu'r person ifanc. Ar y cyfan, roedd staff yn ymwybodol o sut oedd asiantaethau lleol eraill yn gweithio ac yn canmol lefel y cydweithrediad. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu ym mhresenoldeb Rheolwr y Gwasanaeth ac eraill ar grwpiau rhyng-asiantaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwelsom hefyd fod cynlluniau ar y gweill i ehangu mynediad at Draig, y system gofnodi a ddefnyddiwyd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, fel y gallai staff gofnodi yn ogystal â darllen gwybodaeth.

# 3. CANLYNIADAU

| **3.1 Sicrhau canlyniadau:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***49%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfder:*

(1) Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel mewn 79% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y *RoN* yn cael ei reoli'n effeithiol mewn 39% o achosion.

(2) Nid oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio'n foddhaol gyda gofynion ei ddedfryd mewn 63% o achosion. Cymerwyd camau gorfodi effeithiol ond mewn 58% o'r achosion perthnasol.

(3) Roedd lleihad wedi bod yn y ffactorau risg a oedd yn gysylltiedig â Diogelu mewn 43% o achosion.

(4) Roedd lleihad wedi bod yn amledd y troseddu mewn 27% o achosion a lleihad yn nifrifoldeb y troseddu mewn 39%.

| **3.2 Cynnal canlyniadau:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***75%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sylw llawn wedi cael ei roi i faterion integreiddio yn y gymuned mewn 70% o'r achosion dan glo ac mewn 84% o'r rhai yn y gymuned.

(2) Cymerwyd camau neu roedd cynlluniau yn eu lle i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynnal mewn 70% o'r achosion dan glo ac mewn 68% o'r rhai cymunedol.


### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 58%

### SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:

Roedd lleihad yn y sgôr ASSET yn hanner yr achosion (y newidiadau cadarnhaol mwyaf oedd yng nghyswllt teulu a pherthnasoedd personol, ETE a meddwl ac ymddygiad) ond gwelsom rai anghysondebau o ran sut oedd staff yn sgorio ac yn ailsgorio ASSET a hefyd diffyg gwybodaeth ddigonol mewn rhai logiau cyswllt ac adolygiadau ASSET. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd gweld tystiolaeth, mewn rhai achosion, o ba gynnydd oedd wedi'i wneud gan y plentyn neu'r person ifanc. Byddai defnydd gwell o dystiolaeth yn ASSET a dull mwy cyson o sgorio wedi helpu'r Gwasanaeth i wella'r ffordd y mae'n monitro pa mor effeithiol yw ei waith.

Er bod tarfu wedi bod ar ddefnydd y Gwasanaeth o Viewpoint i gasglu adborth gan blant a phobl ifanc y flwyddyn flaenorol, roedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd eto ar adeg yr arolygiad ac roedd gan y Gwasanaeth hefyd ddulliau eraill o wrando ar farn y plant a'r bobl ifanc. Roedd agor y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc ar fore dydd Sadwrn wedi dechrau o ganlyniad i hyn.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i leol yn Ne Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 128,645 fel a fesurwyd gan Gyfrifiad 2001, ac roedd 10.8% ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn fymryn yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn wyn Brydeinig yn bennaf (98.6%). Roedd y boblogaeth o bobl ddu a lleiafrifol ethnig (1.4%) yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a ryportiwyd lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn-llys a phenderfyniad llys yn 2008/2009, sef 42 am bob 1,000, fymryn yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46.

### Y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc

Roedd ffiniau'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc o fewn yr un ffiniau ag ar gyfer ardaloedd heddlu a Gwasanaeth Prawf De Cymru. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe oedd yn gyfrifol am yr ardal.

Roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi'i leoli yn y Gyfarwyddiaeth Plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth wedi'i gadeirio gan Arweinydd y Cyngor.

Roedd gwaith y Gwasanaeth wedi'i leoli mewn un swyddfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd y rhaglen ISSP yn cael ei darparu gan gonsortiwm a oedd hefyd yn cynnwys Castell Nedd Port Talbot.

### Data ar Berfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr ar sicrhau bod plant a phobl ifanc, a oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, mewn addysg, hyfforddiant neu waith, yn 78.2%. Roedd hyn yn ddirywiad ar y flwyddyn cynt, ond yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 69.0%.

Eu perfformiad ar sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 92.7%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn cynt, ond yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 96.1%.


Y "gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis" oedd 80%, sy'n waeth na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad


**Sampl Achosion: Oed ar ddechrau'r ddedfryd**





**Sampl Achosion: Rhyw**





**Sampl Achosion: Tarddiad Ethnig**




**Sampl Achosion: Math o Ddedfryd**




**Sampl Achosion: Risg o Niwed**



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Mawrth 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*London, SW1P 2BQ*

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| ASSET | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu. |
| CAF | Y Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr allweddol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+. |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| HM / EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau *adeiladol* a *chyfyngu* | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a / neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad *adeiladol* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad *cyfyngu* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau *Risg* unigolyn o achosi *Niwed i Eraill*. Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyriad adeiladol* gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai *ymyriad cyfyngu* (i leihau ei *Risg o Niwed*) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos.<br>Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau mae'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol.* |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA / TACAA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno *Risg o Niwed* uwch i eraill. |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu'n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| 'Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>'felly byddai 110% yn golygu bod union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Cymru ar ddechrau 2009 oedd 85%. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau *Risg* yr unigolyn o achosi *Niwed*. |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu*. |
| *'Gwaith RoN neu 'Gwaith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngu*, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi *Risg o Niwed i eraill*. |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn ASSET. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng *pa mor debygol* yw rhywbeth o ddigwydd ac *effaith / difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod *Risg o Niwed* yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o *effaith / sy'n llai difrifol* yn *debygol*. |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| YOS/T | Gwasanaeth / Tîm Troseddwyr Ifanc. |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6th Floor Trafford House
Chester Road
Stretford
Manchester
M32 0RS
Ffôn - 0161 869 1300

Mae fformatau eraill ar gael drwy wneud cais.

ISBN 978-1-84099-293-9